

Arwyddion o dermatitis cysylltiedig â gwaith



Gwnewch
un newid...



- Ydych chi'n gwybod beth ydy symptomau dermatitis ar y dwylo? Chwiliwch am sychder, cosi a chochni sy'n gallu arwain at groen sy'n cracio, pothellu, sy'n gaenog ac yn gennog.
- Ar ddiwedd pob cyfnod gwaith, ceisiwch edrych ar ôl eich dwylo drwy ddefnyddio lleithydd llaw yn rheolaidd (sy'n cynnwys elïau lleddfoll) ar ôl golchi eich dwylo. Dylech wlychu'ch dwylo bob amser cyn rhoi sebon arnyn nhw, gan fod hon yn broblem gyffredin gan iddo beri i groen nyrsys sychu. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n rinsio ac yn sychu'ch dwylo'n drylwyr. Dilynwch y gweithdrefnau ar gyfer golchi dwylo.
- Dywedodd 93% o'r staff nyrsio a ymatebodd i'n harolwg iechyd croen yn 2019 eu bod wedi profi rhyw fath o gyflwr croen, gan gynnwys croen sy'n cracio, sy'n gaenog ac sy'n achosi poen yn y 12 mis diwethaf.

- Yn unol â chyfraith iechyd a diogelwch, dylai eich cyflogwr fod wedi cyflwyno rhaglen o wiriadau croen ar gyfer y staff nyrsio sy'n agored i'r risg o ddioddef dermatitis cysylltiedig â gwaith.
- Dylech roi gwybod am unrhyw broblemau i'ch rheolwr neu eich darparwr iechyd galwedigaethol cyn gynted â phosib.

Gyda phwy ddylech chi siarad am broblemau croen cysylltiedig â gwaith: